| | |
|---|---|
| Date • Dyddiad | 22 Mehefin 2026 |
| Your ref • Eich cyfeirnod | MC/CD |
| My ref • Fy nghyfeirnod | |
| Telephone • Ffôn | 01437 764551 |
| Email • Ebost | michael.cavangh@pembrokeshire.gov.uk |

www.pembrokeshire.gov.uk / www.sir-benfro.gov.uk

Pembrokeshire County Council
Cyngor Sir Penfro

WILL BRAMBLE CBE.
*Chief Executive / Prif Weithredwr*

STEVEN RICHARDS-DOWNES
*Director of Education*
*Cyfarwyddwr Addysg*

Pembrokeshire County Council,
County Hall, HAVERFORDWEST,
Pembrokeshire, SA61 1TP

Cyngor Sir Penfro,
Neuadd y Sir, HWLFFORDD,
Sir Benfro, SA61 1TP

Telephone / Ffôn 01437 764551

Please ask for
Os gwelwch yn dda gofynnwch am

Michael Cavanagh

Annwyl Syr / Fadam

**Hysbysiad o Benderfyniad y Cyngor – Cynnig i gau Ysgol Wirfoddol a Reolir Maenorbŷr**

Rwy'n ysgrifennu i'ch hysbysu bod Cyngor Sir Penfro, yn ei gyfarfod ddydd Llun 15 Mehefin 2026, wedi ystyried a chymeradwyo'r cynnig cyhoeddedig canlynol:

i. Awdurdodi'r Cyfarwyddwr Addysg i gyhoeddi Llythyr Penderfyniad yn cadarnhau cau Ysgol Wirfoddol a Reolir Maenorbŷr

Bydd y cynnig yn dod i rym ar 31 Awst 2026 a bydd y disgyblion yn trosglwyddo i Ysgol Wirfoddol a Reolir yr Eglwys yng Nghymru Sain Fflwrens (yr ysgol ddalgylch newydd ar gyfer ardal Ysgol Wirfoddol a Reolir Maenorbŷr) o 1 Medi 2026.

Cyn dod i'w benderfyniad, ystyriodd y cyngor y sylwadau a gafwyd fel rhan o'r ymgynghoriad statudol a'r 62 o wrthwynebiadau a gafwyd yn dilyn cyhoeddi'r hysbysiad statudol. Ar ben hynny, roedd y cyngor yn fodlon y byddai'r cynnig yn mynd i'r afael â'r materion allweddol a nodwyd yn yr achos dros newid.

Mae'r Adroddiad Gwrthwynebiad ar gyfer y cynnig uchod ar gael i'w ddarllen ar wefan Cyngor Sir Penfro drwy ddilyn y ddolen isod.

Cynnig i gau Ysgol Wirfoddol a Reolir yr Eglwys yng Nghymru Maenorbŷr - Cyngor Sir Penfro

Rydym yn croesawu gohebiaeth yn Gymraeg a Saesneg, a byddwn yn ymateb cyn pen 15 diwrnod gwaith fan bellaf. Byddwn yn ymateb yn yr un iaith â'r ohebiaeth sy'n dod i law (oni bai eich bod yn gofyn i ni wneud yn wahanol). / We welcome correspondence in Welsh and English, and will respond within a maximum of 15 working days. We will respond in the language in which the correspondence is received (unless you ask us to do otherwise).

Os am gael copi mewn print bras, mewn fformat hawdd ei ddeall, ar ffurf Braille neu sain, neu mewn iaith arall, cysylltwch â Chyngor Sir Penfro ar y rhif uchod. / For a copy in large print, easy-read, Braille, audio, or an alternative language, please contact Pembrokeshire County Council on the number above.

Wrth benderfynu ar y cynnig, ystyriodd y cyngor y ffactorau canlynol fel y'u hamlinellir yn y Cod Trefniadaeth Ysgolion (2018):

**Ansawdd a Safonau Addysg**

Mae'r cyngor o’r farn y byddai'r cynnig yn sicrhau y byddai safonau a chynnydd disgyblion yn parhau i gael eu cynnal yn yr ardal ac felly mae'r cyngor yn fodlon na fyddai gweithredu'r cynnig hwn yn cael effaith negyddol ar safonau a chynnydd yn gyffredinol.

**Yr angen am leoedd a'r effaith ar hygyrchedd ysgolion**

Mae'r cyngor yn nodi lleoedd gwag sylweddol a niferoedd disgyblion sy'n gostwng, ochr yn ochr â phatrymau sefydledig o ddewis rhieni ar gyfer ysgolion eraill. Mae darpariaeth addas ar gael o fewn pellter teithio rhesymol, a bydd disgyblion cymwys yn cael cludiant am ddim. Felly mae'r cyngor o'r farn y bydd mynediad at addysg yn parhau i fod yn briodol ac yn rhesymol.

**Adnoddau addysg**

Mae'r cyngor wedi dod i'r casgliad bod yr ysgol yn gweithredu ar gost gymharol uchel fesul disgybl a bod parhau â'r ddarpariaeth hon gyda niferoedd isel o ddisgyblion yn ddefnydd aneffeithlon o adnoddau. Er gwaethaf costau trafnidiaeth uwch, mae'r cynnig yn golygu bod modd defnyddio adnoddau yn fwy effeithiol ac mae’n cefnogi cynaliadwyedd ariannol hirdymor y ddarpariaeth addysg ar draws yr awdurdod.

**Ffactorau penodol wrth ystyried cau ysgolion**

Er y bydd gweithredu'r penderfyniad yn arwain at gau Ysgol Wirfoddol a Reolir Maenorbŷr, mae'r cyngor wedi ystyried y ffactorau penodol sy'n berthnasol i gau ysgolion, gan gynnwys yr effaith ar y gymuned, argaeledd darpariaeth amgen a chludiant. Cafodd y rhain i gyd eu dogfennu fel rhan o'r broses ymgynghori. Er bod y cyngor yn cydnabod yr effeithiau a nodwyd, yn enwedig mewn perthynas â chymuned a theithio, mae'n dod i'r casgliad nad yw'r rhain yn drech na manteision addysgol a strategol y cynnig.

Yn gywir

**Steven Richards-Downes**
**Cyfarwyddwr Addysg**